

Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell



Polisi Diogelu Data

Fersiwn:	1
Dyddiad:	04.04.19
Awdur/on:	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cymeradwywyd gan:	<i>G Williams (Cadeirydd y Llywodraethwyr)</i>
Amllder adolygu:	Bob 2 flynedd
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Mawrth 2021

Polisi Diogelu Data

1. Amcan polisi

- 1.1 Mae gweinyddu a chyflwyno gwasanaethau o safon yn cynnwys prosesu gwybodaeth bersonol am bobl. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell yn ymroddedig i reoli gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn gyfreithlon i gynnal hyder rhwng y rheini yr ydym yn delio â hwy a'r ysgol.
- 1.2 Mae'r polisi hwn yn disgrifio ymagwedd yr ysgol tuag at wybodaeth bersonol.

2. Cwmpas a diffiniadau

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn cwmpasu rhwymedigaethau'r ysgol o dan yr holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yn y DU sy'n cwmpasu diogelu data a phreifatrwydd, ac yn cyfeirio at y diffiniadau yn Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016.
- 2.2 Diffinnir 'Gwybodaeth Bersonol' fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei h/adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae rhai categorïau penodol o ddata yn ddarostyngedig i amddiffyniadau ychwanegol, ac mae'n cynnwys:
 - Honiadau troseddol, achosion, canlyniadau a dedfrydau
 - Iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol
 - Gwleidyddiaeth
 - Tarddiad hiliol neu ethnig
 - Crefydd neu gredoau eraill o natur debyg
 - Bywyd rhywiol
 - Cyfeiriadedd rhywiol
 - Aelodaeth undeb llafur
 - Geneteg
 - Biometreg (lle y'i defnyddir at ddibenion adnabod)
- 2.3 Mae 'prosesu' gwybodaeth bersonol yn golygu unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol drwy gydol cylch bywyd gwybodaeth, o gasglu a chreu gwybodaeth bersonol, i'w defnyddio, gan ei gwneud ar gael i eraill pan fo angen, ei storio a'i gwaredu pan nad oes angen mwyach.
- 2.4 Mae'r polisi'n berthnasol i bob gweithiwr, y corff llywodraethol ac unigolion/sefydliadau eraill sy'n gweithredu ar ran yr ysgol sydd â mynediad at wybodaeth bersonol y mae'r ysgol yn gyfrifol amdani. Mae gweithdrefnau manwl yn cyd-fynd â'r polisi hwn i gyfarwyddo prosesu gwybodaeth bersonol mewn modd teg, cyfreithlon a thryloyw.

3. Egwyddorion diogelu data

- 3.1 Ni chaiff gwybodaeth bersonol yr holl randdeiliaid - disgyblion cyfredol, cyn-ddisgyblion a darpar ddisgyblion a'u teuluoedd, gweithwyr/gwirfoddolwyr, cyflenwyr ac eraill - ei phrosesu ond yn unol â chyfreithiau ar breifatrwydd a diogelu data yn

unig, gan glynu'n benodol at egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y mae'n rhaid i wybodaeth bersonol fod yn:

1. cael ei phrosesu yn gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw;
2. cael ei chasglu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon;
3. digonol, perthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol;
4. cywir ac, lle bo angen, yn cael ei diweddarau;
5. cadw mewn ffurf sy'n caniatáu adnabod testunau data am ddim mwy na bod angen;
a
6. chael ei phrosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol, gan gynnwys amddiffyn rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colli, dinistrio neu ddifrodi damweiniol, gan ddefnyddio mesurau technegol neu sefydliadol priodol.

3.2 Bydd yr ysgol yn dangos atebolrwydd wrth gydymffurfio â hawliau unigolion a nodir yn y gyfraith diogelu data, gan gynnwys eu hawl:

- i gael gwybod
- i gael mynediad
- i gywiro
- i ddileu
- i gyfyngu ar brosesu
- i gludadwyedd data
- i wrthwynebu
- a hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

4. Atebolrwydd a monitro

4.1 Y Pennaeth yw Perchennog Asedau Gwybodaeth sy'n adrodd i Gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell.

4.2 Mae'r ysgol wedi contractio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ddarparu Swyddog Diogelu Data Statudol i roi cyngor ar reoli gwybodaeth bersonol.

4.3 Ymgwymerir ag Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data/Preifatrwydd yn gynnar pryd bynnag y cynigir defnyddio gwybodaeth bersonol ac yn enwedig yn ystod cydweithrediadau newydd.

4.4 Cedwir cofnodion o weithgareddau prosesu gwybodaeth bersonol, a chaiff y modd y rheolir y wybodaeth ei werthuso'n rheolaidd gan ddefnyddio Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data lle bo'n briodol.

4.5 Caiff hysbysiadau preifatrwydd clir ac amserol eu cyfathrebu sy'n galluogi'r testun data i ddeall sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio.

4.6 Rhennir gwybodaeth bersonol yn unol â phrotocolau a gymeradwywyd, gan gynnwys Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru a chytundebau prosesydd data.

4.7 Bydd gwaredu gwybodaeth bersonol yn llym yn unol â Gweithdrefn Cadw a Gwaredu Cofnodion yr Ysgol.

4.8 Mae pawb sy'n prosesu gwybodaeth bersonol yn deall eu cyfrifoldebau ac yn derbyn gwybodaeth briodol i'w cefnogi, gan gynnwys hyfforddiant blynyddol.

5. Cwynion a digwyddiadau diogelu data

5.1 Gall methu â chydymffurfio â'r gyfraith ynglŷn â diogelu data arwain at:

- Canlyniadau difrifol i unigolion y mae'r data'n ymwneud â hwy, gan gynnwys embaras, gofid, colled ariannol
- Difrod anadferadwy i enw da'r ysgol a cholli hyder yng ngallu'r ysgol i reoli gwybodaeth yn iawn
- Cosbau ariannol a hawliadau iawndal
- Camau gorfodi gan y Comisiynydd Gwybodaeth
- Atebolrwydd personol am rai troseddau ac am dorri codau ymddygiad proffesiynol.

5.2 Gellir gwneud cwynion neu godi pryderon i Swyddog Diogelu Data yr ysgol.

6. Gwybodaeth Bellach

6.1 Mae Gwybodaeth Bellach ar gael ar wefan yr ysgol neu oddi wrth y Pennaeth.

Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell,
Heol Cilgant,
Caerffili,
CF83 1WH
Tel: 02920864790
E-bost: yycpa@caerphilly.gov.uk